

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
Nos Iau 15 Hydref 2020 am 18.30

Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Huw P Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gabrielle Wyn
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Mair Pierce Owen
Y Cynghorydd Angharad Williams

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.
Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith, Jacob Milner a Dafydd Roberts.

2. Cyflwyniad Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Cafwyd cyflwyniad cryno gan Beca Roberts, Swyddog Ymgysylltu a'r Gymuned am y cynllun. Cytunwyd y byddai y Clerc yn danfon y cyflwyniad ymlaen i'r aelodau. Diolchwyd i Beca am ei hamser.

3. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – y Clerc a a'r Cyng. Richard Fraser-Williams wedi ymweld a'r safle, a'r Cyng. Mair Leverret wedi creu cynllun o'r safle gyda'r mesuriadau. Y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi derbyn pris terfynol gan y contractwr. Y Clerc i rhoi caniatâd i'r contractwr i ddechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl.

4.2 Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Cyng. Iwan Hywel a Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r safleoedd diwedd y Hydref pryd fydd nosweithiau yn tywyllu.

4.3 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi cwblhau a pharatoi llawer o waith ymchwil ac wedi danfon y wybodaeth a chwestiynau ymlaen i Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd. Nid oedd ymateb y Cyngor yn ddigonol, nid oeddynt wedi ymateb i

unrhyw un o'r cwestiynau â ofynwyd. Y Clerc i wneud cwyn swyddogol am diffyg cydweithio a diffyg gwybodaeth i Cyngor Gwynedd, Uwch Swyddog yr Adran Briffyrdd, a'i danfon ymlaen at Sian Gwenllian AC a Hywel Williams AS. Cytunwyd y byddai Cyng. Mary Hayes yn siarad gyda'r Prifathrawes dros dro Ysgol Bodfeurig i gael eu chefnogaeth.

- 4.4 Ciciwr Calon Neuadd Talgai – y postyn ar gyfer yr offer wedi cyrraedd. Y Clerc i drefnu i'r postyn gael ei rhoid ar y safle cyn gynted a bu'r modd.
- 4.5 Llecyn Tir, Bont Twr – Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfon y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough). Clerc i gael diweddariad.
- 4.6 Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – Cyng. Dafydd Owen i rhoid ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf.
- 4.7 Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy - Nid yw'r palmant newydd ger y fynediad yn weladwy iawn i gyrrwyr ceir, ac mae'r bolard yno wedi torri. Y Clerc eisoes wedi danfon ebost ynglyn a'r mater. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 4.8 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – Y Clerc a'r Cynghorwyr lleol i wneud ymholiadau i weld pwy yw'r perchennog.
- 4.9 Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau. Y Clerc i gael diweddariad.
- 4.10 Materion gyda draeniau/llifogydd Mynydd Llandygai – Nodwyd gan y Cyng. Dafydd Owen bod Cyngor Gwynedd wedi gweud cais am arian grant gan Llywodraeth Cymru.
- 4.11 Problemau gyda gyrrwyr bws methu gweld pobl yn yr arhosfan bws ger Pant yr Ardd oherwydd nifer fawr o geir yn parcio ar hyd o ffordd. Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am marcio'r ffordd i wneud yr arhosfan yn fwy weladwy ac i atal pobl rhag barcio yn y man hwn. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 4.12 Adroddwyd fod y graffiti ar llochesi bws yn Llandygai a Tregarth wedi gael ei lanhau. Adroddwyd bod graffiti ar y lloches bws ger Arafon, Mynydd Llandegai, y Clerc i gael rhywun i'w lanhau.

5. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2020'

Cyflwynwyd: Howard Huws, Cylch yr Iaith – Gor-dwristiaeth yng Nghymru – cytuno hefo'r cynnwys.

Cyflwynwyd – Polisi Cynllunio – Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft CCA 5: Ymrwymadau Cynllunio – yr aelodau i danfon unrhyw sylwadau erbyn y 15 Tachwedd.

Cyflwynwyd – Panel Annibynnol Cymru ar Gydanbyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft – Adroddiad Blynyddol Drafft 2021/22 – yr aelodau i danfon unrhyw sylwadau erbyn 23 Tachwedd.

Cyflwynwyd: Gohebiaeth Iwan ap Trefor - Gor-yrru Mynydd Llandegai – trafodwyd uchod o dan pwynt 4.3.

Cyflwynwyd: Ebost Iwan Hywel – Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – Cytunwyd y bydd Cyng. Dafydd Owen yn gwneud cais am arwyddion i'w rhoi ar y safle. Nodwyd fod y Cynghorydd wedi bod mewn cyswllt gyda'r swyddog iechyd a'r amgylchedd yn Nghyngor Gwynedd – disgwyl ymateb gan perchnogion y tir, sef Stad Penrhyn.

Cyflwynwyd – cynllun safle bws Hendurnpike – Cytunwyd bod yr safle arfaethedig yn addas.

6. Cyfansoddiad Canolfan Tregarth

Nid yw Pwyllgor Canolfan Tregarth wedi gallu cynnal cyfarfod oherwydd y cyfyngiadau presennol. Cytunwyd y byddai Cyng. Mary Hayes yn holi Pwyllgor Neuadd Goffa Mynydd Llandegai am gopi o'i cyfansoddiad nhw, a Cyng. Mair Leverret i holi Neuadd Talgai. Yr eitem hwn i'w rhoi ar yr agenda yn y dyfodol agos ar ôl i Pwyllgor y Ganolfan gyfarfod.

7. Gwaith y mis

- 7.1 Adroddwyd fod aelod o'r cyhoedd wedi cwyno am y ffordd a'r llwybr ger blwch post Penyffriddoedd a'i fod yn beryglus – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd pwy sy'n berchen y llecyn tir hwn.
- 7.2 Gwyneb y llwybr cyhoeddus sy'n arwain o Penyffriddoedd am Sling yn fwdlud ofnadwy – cytunwyd y byddai Cyng. Dafydd Owen yn cysylltu gyda'r swyddog llwybrau.
- 7.3 Draeniau o fewn y plwyf angen sylw ar frys, yn enwedig y rhai sydd rhwng Lon y Grug a Ysgol Bodfeurig, ac wedyn lawr am Braichtalog.
- 7.4 Gylis Tan y Bwlch dal heb gael ei glanhau – y Clerc i gysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd.

8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Ysgol Llandygai – y Cyng. Mair Leverret wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf, dim i'w adrodd.

Ysgol Bodfeurig – Y Cyng. Mary Hayes wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf, dim i'w adrodd.

9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Medi. Derbyniwyd yr adroddiad.

9.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

10. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol £6484.34

9. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymghynghoriadau
drosodd

C19/0918/16/LL

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2
uned wyliau ynghyd a gosod tanc
septig newydd a pharcio

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0267/16/DT

Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,
Estyniad cefn unllawr.

Penderfyniad: Ar y gweill

C20/0576/16/AC

Clwb Criced Bangor, Llandygai
Diwygio amod rhif 2 (yn unol a'r
cynlluniau), 4 (parcio) a 10 (tirlunio) o
ganiatad rhif C19/0105/16/LL ar
gyfer codi clwb criced newydd

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0503/16/DT

Ty Fferm Tanrhiw Tregarth
Cais deiliad ty ar gyfer codi estyniad
ochr unllawr

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0582/16/DT

Bryn Gwynedd, 1 Gefnan, Mynydd
Llandegai
Estyniad un llawr ar dalcen yr eiddo

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0606/16/DT

Cae Herfyn, Tal Gae, Tregarth
Codi modurdy a swyddfa gartref o
fewn cwrtil preswyl.

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

10. Ceisiadau Cynllunio

Dim.

15. Unrhyw fater brys arall

Seddi gwag – Derbyniwyd ymddiswyddiad gan Cyng. Jacob Milner oherwydd ei fod yn symud i fyw o'r ardal. Y Clerc i ddiolch iddo am ei holl waith. Y Clerc i hysbysu'r adran etholiad yn Cyngor Gwynedd fod yno ddwy sedd wag, a gweld beth yw'r camau nesaf.